

BETH ALLWCH CHI EI WNEUD?

SYNIADAU AR GYFER GYSAGAU



Ym mis Mawrth 2011 bydd Cymru a Lloegr yn cael cyfle i ddathlu Addysg Grefyddol yn y ddwy brif genedl a chodi proffil y pwnc mewn ysgolion, cymunedau ffydd a chymunedau lleol a chenedlaethol yn gyffredinol. Gallwn ddatblygu cysylltiadau lleol a chenedlaethol hyd yn oed yn gryfach er lles eich gwaith a'r pwnc mewn blynyddoedd i ddod.

Er bod y cyfle cyffrous hwn yn teimlo'n bell i ffwrdd, nid yw CYSAGau yn cyfarfod yn aml iawn, felly efallai yr hoffech sefydlu gweithgor er mwyn adrodd yn ôl wrth y CYSAG a symud eich gwaith ymlaen rhwng y cyfarfodydd. Dyma ychydig o syniadau am ffyrdd y gall CYSAGau gyfrannu at y dathliad.



Gofalu bod ysgolion a'ch holl sefydliadau partner yn ymwybodol o'r wyl

Bydd y Cyngor Addysg Grefyddol yn barod i sicrhau bod copïau o'r daflen yn cael eu hanfon atoch i'w

dosbarthu:

celebratingre@religiouseducationcouncil.org.

Mae'r daflen ar gael yn electronig oddi ar y wefan hon hefyd felly gall ysgolion gael gafael arni'n uniongyrchol.



Gwnewch y wefan Dathlu Addysg Grefyddol yn un o'ch 'Fferynnau'

ac awgrymwch wrth eich arweinwyr pynciau Addysg Grefyddol i wneud yr un fath er mwyn darganfod y

wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau, syniadau a chystadlaethau yn rheolaidd.



Ystyriwch sefydlu cystadleuaeth ar gyfer eich CYSAG lleol eich hun -

gwnewch hyn mor lleol ag y gallwch a chofiwch gynnwys holl ysgolion yr ardal. Mae hwn yn

siawns i feithrin cysylltiadau agosach ag ysgolion annibynnol lleol er enghraifft.



Cynlluniwch gyfres o ymweliadau 'Tŷ Agored' i'ch manau addoli lleol yn ystod y mis dathlu.

Trwy weithio mewn

partneriaeth ag aelodau ffydd CYSAG, eu cymunedau lleol a'ch Grŵp Rhyng-ffydd lleol, defnyddiwch y mis Dathlu Addysg Grefyddol fel achlysur i wahodd eich gilydd i'ch manau ffydd.



Lluniwch llwybr dathlu yn

ystod y mis gyda phob cymuned yn rhannu eu lleoliad a'u lletygarwch gyda grwpiau o ysgolion ac athrawon ac oedolion eraill. Byddai helpu'ch

gilydd i gynllunio'r rhain a chynhyrchu taflen i drefnu'r llwybr yn ffordd dda o ddod i adnabod eich gilydd yn well.





Gweithiwch gydag ysgolion lleol i'w helpu i gynllunio dyddiau rhyng-ffydd yn ystod y mis dathlu.

Gallai hwn fod yn siawns i fyfyrwyr ymweld â'u cymunedau lleol a thu hwnt a chanfod â'u llygaid eu hunain pwysigrwydd perthynas rhyng-ffydd dda. Mae'n bosibl y bydd angen cynnal gwiriadau CRB ar nifer o aelodau ffydd ac efallai y bydd angen cynnal sesiwn hyfforddi o flaen llaw i sicrhau bod nifer o helpwyr parod ar gael yn ystod y digwyddiadau hyn a bod pawb yn gyfforddus yn siarad â phlant o wahanol oedrannau a galluoedd.



Cynhaliwch Ddathliad Dinesig

i ledaenu'r gair i wleidyddion ac arweinwyr ffydd lleol. Dylech ei wneud yn ddigwyddiad dathliadol, hwyliog a chofiadwy mewn modd a fydd yn hyrwyddo'r celfyddydau creadigol, gwerthoedd ac ysbrydolerwydd, a hefyd yn creu cyffro o amgylch Addysg Grefyddol. Gadewch i bawb ysgrifennu eu 'dymuniad ar gyfer y dyfodol' ar ddeilen/llaw a'u gosod ar goeden ddathlu fel y logo Dathlu Addysg Grefyddol.



Cynlluniwch ddigwyddiad 'Cwrdd â'r CYSAG' yn ystod y mis dathlu.

Cynhaliwch ddigwyddiad lle gall athrawon ddod draw i gwrdd â'i gilydd a'r CYSAG i ganfod mwy am waith CYSAGau ac i rannu sut y gellir datblygu partneriaethau rhwng ysgolion a CYSAGau ymhellach. Gallech rannu bwyd, gosod arddangosfeydd ffydd, trefnu adloniant neu sgwrs ac efallai gwneud sesiwn 'gwib ganlyn' lle mae pobl yn symud o amgylch yn cwrdd â'i gilydd yn gyflym a dod i adnabod ei gilydd.



Ymunwch â CYSAGau eraill i rannu digwyddiad.

Gallech uno mewn dathliad mawr efallai mewn man addoli lleol, Canolfan Addysg Grefyddol neu ysgol. Gallai hwn fod yn gyfle i arddangos rhywfaint o'r Addysg Grefyddol dda sydd wedi bod yn digwydd yn eich ALL.



Gweithio tuag at sefydlu rhywbeth i annog y gymuned ehangach i fyfyrion rhywle yn eich ardal.

Mewn partneriaeth ag ysgol leol, gallech achub ar y cyfle i ddangos pam ydych yn credu bod gwybod am ffydd a chredoau eich gilydd yn rhan hanfodol o addysg trwy, er enghraifft, ddarn o waith celf sydd wedi'i gomisiynu'n arbennig ar gyfer y digwyddiad.

